

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi **Rhagfyr 2018 Ionawr 2019**

Trefn oedfaon y Sul

2 Rhagfyr		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
9 Rhagfyr		
Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r Eglwys
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
16 Rhagfyr		
Noddfa	10.00 y bore	Delyth Morgans Phillips
Aberduar	10.00 y bore	Euros Lewis
Brynhafod	5.00 yr hwyr	Gwasanaeth carolau
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul
23 Rhagfyr		
Aberduar	10.00 y bore	Oedfa Nadolig yr Ifainc
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog
25 Rhagfyr—Dydd Nadolig		
Aberduar	9.00 y bore	Gweinidog
Noddfa	10.00 y bore	Gweinidog

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

30 Rhagfyr		
Brynhafod	10.30 y bore	Gweinidog—Oedfa'r Cylch Diwedd Blwyddyn
6 Ionawr 2019		
Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa Canhwyllau
13 Ionawr		
Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
20 Ionawr		
Noddfa	10.00 y bore	Gweinidog– Cymun
Aberduar	11.00 y bore	Doniau'r Eglwys
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Oedfa'r plant
27 Ionawr		
Aberduar	10.00	Stan Evans
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog

OEDFAON SEFYDLU'R PARCHEDIG D. DENSIL MORGAN

Dydd Sadwrn 12 Ionawr 2019

Oedfa'r Sefydlu yn Aberduar am 2 o'r gloch
Y sefydlu yng ngofal y Parchg Judith Morris
Pregethwr gwadd: Y Parchg Olaf Davies

Oedfa Bregethu yn Noddfa am 5.30 o'r gloch
Pregethwr gwadd: Y Parchg D. Hugh Matthews

Llythyr gan Jill

Annwyl gyfeillion,

Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi am y fraint o gael rhan â chi yn ystod y blynyddoedd hyn ym mywyd a gwaith yr Arglwydd yn eglwysi'r Cylch, ac am y gefnogaeth a gefais gennych fel unigolion a theuluoedd ac eglwysi drwy'r cyfnod hwn. Diolch arbennig am ran pob eglwys yn nhrefniadau fy Sul olaf, ac am y trysor o anrheg (cwbl annisgwyl!) a gefais gennych. Diolch hefyd am bob cyfraniad i'r casgliad a wnaed ar gyfer Cadwyn Teifi a Banc Bwyd Llambed, a ddaeth yn gyfanswm erbyn y diwedd o £1230.60, sef £615.30 yr un ar gyfer yr achosion Cristnogol lleol buddiol hyn. Rwy'n falch iawn fel yr ydych chi, rwy'n siŵr, ein bod yn gallu cefnogi gwaith y ddwy elusen hon.

Edrychaf ymlaen gyda chi nawr at gyfnod newydd yng ngweinidogaeth yr eglwysi hyn, ac yn arbennig at y 12fed o Ionawr, pan sefydlir y Parchg Densil Morgan. Dymunaf fendith gyfoethog y nef arnoch chi, yn weinidog, swyddogion ac aelodau i'r dyfodol.

Yng Nghrist,

Jill Tomos

Henffych brifardd!

Llongyfarchiadau mawr i Delyth Morgans Phillips, ysgrifennydd y Cylch, ar ennill cadair Eisteddfod Pumsaint 2018, ar y testun 'Ymadael', er cof am yr artist Aneurin Jones

Ymadael
(I gofio Aneurin Jones, 1930-2017)

Dwy law fel rhofiau sydd yn y darlun,
A'r creithiau yn dystion byw
I fywyd y pridd heb 'r un ceffyl dur,
A'r winedd fel haearn, myn Duw.

Dau gawr o bwdin sydd yn y darlun,
Yn guriad calon i'r mart.
Dau ffermwr siriol, dau henwr garw,
Dau bleidiol i'r ceffyl a'r cart.

Dau yn bargeinio sydd yn y darlun,
Dwy winc, a dau'n tynnu coes;
Dau yn y sêl fel dau farch, yn wydn,
A'r ddêl fydd yn para am oes.

Un pâr o lygaid luniodd y darlun
Yn fantell o fywyd hud.
Cofnod o'r werin yn ei chynefin,
Cyn tewi a mynd yn fud.

Cyfeiriad a rhifau ffon y Gweinidog

Y Gilfach,
Heol y Gogledd,
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7JA

Rhifau ffon: 01570 422413
07792 238763